| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **17 Gorffennaf 2014** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd R H Wyn Williams** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 20131/14 (yn ymgorffori Adroddiadau Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol a'r Panel Strategol Diogelu)** |
| **AMCAN:** | **Adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2013/14**<br>**Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol a Chyfarwyddwr Corfforaethol** |

## 1. <u>Cyflwyniad</u>

1.1 Mae'n ofyn statudol i'r Cyngor gyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol' sydd yn adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

1.2 Rhaid i'r adroddiad fod mewn iaith hawdd i'w ddeall gan ddweud wrth drigolion a chyfranddalwyr pa mor dda rydym yn meddwl mae'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn perfformio yng Ngwynedd. Ar ddiwedd y broses, mae'n ddisgwyliad ein bod yn cyflwyno'r adroddiad i Aelodau'r Cyngor.

## 2. <u>Y gyfundrefn</u>

2.1 Cyflwynwyd y gyfundrefn hon yn 2010. Mae'n unigryw i Gymru ac i Wasanaethau Cymdeithasol ac mae gofyn i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn cyfrifoldeb personol i adrodd yn gyhoeddus ar berfformiad y gwasanaethau ynghyd â'r profiad o ddarparu gwasanaethau mewn cyd-destun lleol.

2.2 Gofynnir i'r Cyfarwyddwr Statudol ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n cael effaith ar allu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chynaliadwy o'r safon uchaf.

2.3 Er bod hwn yn gyfrifoldeb penodol ar y Cyfarwyddwr Statudol rhaid cyflawni'r gwaith a'r dasg mewn ffordd sy'n adlewyrchu a grymuso'r cydweithio, sy'n rhan annatod o'r maes.

2.4 Mae 4 cam i'r broses, sef:

**i. Yr Adroddiad Blynyddol (a gyflwynir yn atodol).**
Dogfen gyhoeddus sy'n crynhoi barn y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y gwasanaeth yn ystod 2013/14 gan nodi'r blaenoriaethau er sicrhau gwella gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn y Cyngor Llawn, bydd y ddogfen yn cael ei dylunio, er mwyn rhoi diwyg mwy lliwgar, a chynnwys rhywfaint o ddyfyniadau, lluniau a graffiau atodol. Yna, bydd yn cael ei rhoi ar wefan y cyngor.

**ii. Dadansoddiad o effeithiolrwydd Gwasanaethau**
Proses fanwl o hunan asesu effeithlonrwydd y gwasanaeth, gan gytuno ar ddadansoddiad ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae angen sicrhau fod cyfranddalwyr wedi cael cyfle i herio'r asesiad. Nid yw'n ddogfen gyhoeddus ond ar gael i bawb sydd eisiau'i gweld.

**iii. Llwybr Tystiolaeth**
Rhaid casglu tystiolaeth sydd yn cyfiawnhau'r asesiad a'r dyfarniad yn yr hunan asesiad.

**iv. Cynllun busnes**
Llunnir y cynllun busnes er mwyn cyflawni'r gwelliannau a nodir yn yr adroddiad.

3. **Atodiadau**

3.1 Yng nghorff yr Adroddiad Blynyddol uchod, cyfeirir at Adroddiadau Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol a'r Panel Strategol Diogelu. Mae'r ddau adroddiad wedi eu cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad hwn (Panel Rhiant Corfforaethol – Atodiad A, Panel Strategol Diogelu – Atodiad B)

## 4. Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad fel crynodeb cywir a chytbwys o berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2013/14, a'r bwriadau strategol ar gyfer 2014/15. Hefyd, gofynnir am hawl olygyddol i'r Cyfarwyddwr Statudol ychwanegu lluniau, graffiau a dyfyniadau ychwanegol, fel bo'n briodol, i fywiogi diwyg yr adroddiad cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol. .